

Cyngor Sir y Fflint
Polisi Torri Gwair (Ionawr 2018)

1. Ymyl ffordd torri gyda tractor

- a) Ymyl ffyrdd gwledig (y tu allan i 30mya – **1 toriad y flwyddyn ym mis Gorffennaf** (yn dibynnu ar y tywydd)
- 1 ystod o led ar bob prif ffordd
 - 1 ystod o led ar bob ffordd fach a ffyrdd di-ddosbarth

lleiniau gwelededd ar gyffyrdd **4 toriad y flwyddyn** yn -

- Ebrill
- Mehefin
- Awst
- Medi/Hydref

Torri ymyl llawn ar gyfer rheoli chwyn a glasbren ar bob ffordd wledig **unwaith bob 4 blynedd** Medi/Hydref

Mae'n bosibl y bydd toriadau ychwanegol ar sail lechyd a Diogelwch mewn lleoliadau penodol fel y nodwyd gan y Cydlynwyr Ardal.

- b) Ymyl ffyrdd trefol (o fewn parthau 30 mya) – **4 toriad y flwyddyn**

- Ebrill
- Mehefin
- Awst
- Medi/Hydref

2. Ardaloedd Amwynder

Mwyafswm o 13 toriad y flwyddyn fel bo'r angen.

Angen dechrau'n hyblyg ar ddechrau'r tymor torri gwair, yn Chwefror/Mawrth, yn dibynnu ar y tywydd

Amllder torri gwair bob pythefnos rhwng Ebrill a Mehefin, wedi'i ymestyn i bob 3 wythnos Gorffennaf i Hydref, yn dibynnu ar y tywydd.

(Bydd gwair a dorwyd yn cael ei glirio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig e.e. Toriad cyntaf y tymor)

3. Llwybrau troed cyhoeddus / Llwybrau beicio

Mwyafswm o 4 toriad y flwyddyn fel bo'r angen, i atal gwair rhag tyfu ar droedffyrdd ac ymyl oherwydd diffyg defnydd.

4. Gwrychoedd

Mae'r mwyafrif o wrychoedd priffyrdd yn gyfrifoldeb y tiffeddiannwr cyfagos. Lle mae'r gwrych wedi tyfu i'r graddau ei fod yn achosi rhwystr i ddefnyddwyr y briffordd, bydd y tiffeddiannwr yn derbyn rhybudd i dorri'r gwrych yn unol â hynny. Bydd gwrychoedd priffordd sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu torri **unwaith y flwyddyn** ar ôl y tymor nythu.

5. Arosfannau bysiau

Mwyafswm o 4 toriad y flwyddyn fel bo'r angen ar draws y glaswelltir bob ochr o arosfannau bws gwledig, hyd at 20 metr ar draws hyd yr arhosfan.

6. Pyrth Pentrefi / Trefi

Mwyafswm o 4 toriad y flwyddyn fel bo'r angen ar draws y darnau gwair naill ochr i arwyddion Pyrth Pentrefi / Trefi, hyd at 10 metr naill ochr y porth.

7. Tir Chwaraeon Hamdden -

Hyd at 16 toriad y flwyddyn Mawrth i Hydref. Yn ddarostyngedig i drefniadau caffael ar wahân ac mewn cysylltiad uniongyrchol â'r Ysgolion.

8. Mynwentydd

Angen dechrau'n hyblyg ar ddechrau'r tymor torri gwair, yn Chwefror/Mawrth, yn dibynnu ar y tywydd

Amllder torri gwair **bob pythefnos rhwng Ebrill a Mehefin**, wedi'i ymestyn i **bob 3 wythnos Gorffennaf i Hydref**, yn dibynnu ar y tywydd.

(Bydd gwair a dorrwyd yn cael ei glirio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig e.e. Toriad cyntaf y tymor)

Dyddiadau allweddol ychwanegol y tu allan i'r tymor torri gwair yn cynnwys y **Nadolig a Sul y Mamau**.

9. Gerddi Tenantiaid

Lle mae tenantiaid wedi gwneud cais ac yn gymwys ar gyfer gwasanaeth cymorth garddio. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gontractwyr fydd yn darparu'r canlynol:

Mwyafswm o 13 toriad y flwyddyn fel bo'r angen.

Angen dechrau'n hyblyg ar ddechrau'r tymor torri gwair, yn Chwefror/Mawrth, yn dibynnu ar y tywydd

Amllder torri gwair bob pythefnos rhwng Ebrill a Mehefin, wedi'i ymestyn i bob 3 wythnos Gorffennaf i Hydref, yn dibynnu ar y tywydd.